Swyddogaeth Cynghorydd Pobl Ifanc (CPI)
ac Oedolyn Dibynadwy

# Arolwg Incwm Sylfaenol i Bobl sy'n gadael Gofal yng Nghymru – 'Eich Bywyd y tu hwnt i Ofal'

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni gynnal fersiwn addasedig o'r arolwg 'Eich Bywyd y tu hwnt i Ofal' ymhlith pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru, ac a fydd yn troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023. Byddwn yn gofyn i bawb cymwys, sy'n gadael gofal, ateb yr arolwg, **dim ots a ydynt yn dewis cymryd rhan yn y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol neu ddim**.

Bydd yr ymatebion a gawn gan bobl ifanc yn gyfle unigryw i ddarganfod sut maent yn teimlo am eu bywydau a bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall effaith y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol.

Rydym eisiau cynnig yr arolwg i gymaint o bobl ifanc sydd wedi cofrestru ar y peilot â phosibl, gan roi'r cyfle iddynt fynegi eu barn a'u teimladau am eu bywydau a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Er mwyn cael cyfradd ymateb mor uchel â phosibl, rydym yn cysylltu â phob person ifanc yn unigol i sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i gwblhau'r arolwg.

**Gwybodaeth sylfaenol am yr arolwg:**

- Arolwg ar gyfer pobl sy'n gadael gofal ydy 'Eich Bywyd y tu hwnt i Ofal'. Mae'r arolwg yn cael ei redeg gan Coram Voice, elusen sy'n cefnogi plant mewn gofal a phobl sy'n gadael gofal.
- Mae Coram Voice wedi gweithio gydag ymchwilwyr o Ganolfan Rees ym Mhrifysgol Rhydychen, Llywodraeth Cymru a'r tîm gwerthuso yn CASCADE, Prifysgol Caerdydd i greu fersiwn addasedig o arolwg 'Eich Bywyd y tu hwnt i Ofal'.

- Byddwn yn gofyn i bobl sy'n gadael gofal ateb yr arolwg ddwywaith dros ddwy flynedd: unwaith ar ddechrau'r peilot ac unwaith ar ddiwedd y peilot.
- Arolwg byr ydy 'Eich Bywyd y tu hwnt i Ofal' gyda chymysgedd o gwestiynau blwch ticio a chwestiynau testun rhydd. Mae'n cymryd tua 10-15 munud i'w gwblhau.
- Mae'r arolwg yn holi am fywyd a phrofiadau pobl ifanc a'r pethau sy'n gwneud eu bywyd yn dda.
- Mae'r arolwg ar-lein a gellir ei wneud ar unrhyw ddyfais sydd wedi cysylltu â'r Rhyngrwyd (cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur, tabled, ffôn clyfar).
- Does dim angen manylion mewngofnodi na chyfrinair i gael mynediad at yr arolwg. Mae'r person ifanc yn clicio ar y ddolen i'w agor.
- Bydd yr arolwg yn gofyn i bobl ifanc am eu henw a'u dyddiad geni er mwyn i ni allu adnabod pwy sydd wedi ateb yr arolwg.
- Heblaw'r cwestiynau data personol hyn, mae pob cwestiwn yn yr arolwg yn ddewisol. Os nad oes ar berson ifanc eisiau ateb cwestiwn, os bydd y cwestiwn yn peri gofid neu os bydd yn teimlo nad ydy'r cwestiwn yn berthnasol, gall fynd heibio iddo a symud ymlaen i'r un nesaf.
- Byddwn yn ceisio siarad â phob person ifanc cymwys yn ystod cyfnod yr arolwg a chynnig cyfle i gwblhau'r arolwg. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn wirfoddol. Os nad yw person ifanc eisiau ei gwblhau, yna does dim rhaid gwneud hynny.
- Ni fydd penderfyniad y person ifanc i ateb yr arolwg neu beidio yn effeithio ar ei allu i fod yn rhan o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol nac i gael unrhyw wasanaeth arall.

**1. Swyddogaeth Cynghorydd Pobl Ifanc (CPI) – galluogi ac annog pobl ifanc i ateb yr arolwg**

Bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn gallu cwblhau'r arolygon heb gymorth. Byddwn yn gofyn i bob CPI gysylltu â <u>phobl ifanc sy'n gallu ateb y cwestiynau yn yr arolwg heb gymorth</u> a darparu eu cyswllt i'r arolwg.

**Mae angen ichi wybod y canlynol os mai chi fydd y Cynghorydd Pobl Ifanc:**

- Cyflwynwch yr arolwg i'r person ifanc mewn ffordd gadarnhaol, gan ei gwneud yn glir bod eu meddyliau a'u barn yn bwysig. Er mai dewisol ydy'r arolwg, rydym eisiau clywed gan gynifer o bobl ifanc â phosibl. Po fwyaf o arolygon fydd wedi cael eu cwblhau y cryfaf fydd y dystiolaeth. Bydd yr ymatebion i'r arolwg yn rhoi sylfaen o dystiolaeth i Lywodraeth Cymru sy'n dangos effaith y cynllun a bydd hyn yn llywio sut y gallai edrych yn y dyfodol.
- Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â chynghorwyr pobl ifanc. Er mwyn i bobl ifanc deimlo'n gyfforddus i ateb yr arolwg yn onest, **gofynnwn ichi beidio ag eistedd wrth eu hymyl pan fyddant yn ateb y cwestiynau**. Os bydd ar eich person ifanc angen cymorth ychwanegol, bydd angen i chi nodi oedolyn yr ymddiriedir ynddo i'w helpu (gweler isod).
- Bydd gan bob person ifanc ddolen arolwg unigryw, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r ddolen gywir i'r person ifanc iawn. Arweinydd enwebedig eich Awdurdod Lleol ar gyfer y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol fydd yn anfon dolenni'r arolwg atoch.
- Mae'r arolwg yn gofyn cwestiynau ynghylch nifer o feysydd ym mywyd pobl ifanc, gan gynnwys eu teimladau, y bobl sy'n bwysig iddynt, rheoli arian a'r pethau y maent yn eu gwneud o ddydd i ddydd. Gall rhai o'r cwestiynau godi teimladau anodd i'r bobl ifanc. Rydym yn eich annog i ystyried neilltuo ychydig o amser ar y diwedd i gael gair â nhw a gofyn a oes unrhyw beth yr hoffent ei rannu gyda chi. Efallai y bydd arnoch eisiau darllen drwy'r arolwg cyn ei roi i'r bobl ifanc er mwyn nodi cwestiynau a allai fod yn drigeri.
- Os bydd person ifanc yn dweud unrhyw beth sy'n peri pryder i chi, cofiwch ddilyn y gweithdrefnau diogelu. Bydd y Tîm Ymchwil yn darllen yr holl ymatebion i'r arolwg, ond efallai y bydd hyn fisoedd ar ôl i'r person ifanc ymateb.

## 2. Swyddogaeth yr 'oedolyn dibynadwy'

Ar gyfer pobl ifanc fydd angen cymorth i ateb y cwestiynau yn yr arolwg (ee pobl ifanc sy'n siarad Saesneg neu Gymraeg fel ail iaith neu bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol) rydym yn defnyddio model 'oedolyn dibynadwy' o ddosbarthu'r arolwg. Mae hynny'n golygu bod gweithiwr proffesiynol y mae'r person ifanc yn ei adnabod yn cyflwyno'r arolwg, yn dweud am beth y mae'n sôn ac yn rhoi'r cymorth sydd ei angen i gwblhau'r arolwg. Gall yr oedolyn dibynadwy fod yn unrhyw un o ystod eang o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Gweithiwr cyfranogiad/Swyddog Hawliau Plant
- Gweithiwr NEET/ EET
- Hyfforddwr swydd
- Staff addysgol o goleg neu brifysgol
- Gweithiwr cymorth mewn llety lled-annibynnol neu lety â chymorth
- Gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'
- Gweithiwr allweddol/gweithiwr cymorth mewn gofal preswyl
- Eiriolwr
- Nyrs enwebedig/ddynodedig, neu weithiwr iechyd proffesiynol arall
- Dehonglydd
- Swyddog diogelu
- Person ifanc arall sydd â phrofiad o ofal (e.e., prentis, 'Llysgennad', 'Cyfarwyddwr Ifanc' ac yn y blaen) a gyflogir gan yr awdurdod lleol

**Mae angen ichi wybod y canlynol os ydych chi'n Oedolyn Dibynadwy:**

- Gofynnwn i chi ddefnyddio eich adnabyddiaeth o'r person ifanc i'w helpu i gwblhau'r arolwg mewn ffordd sy'n gweithio. Efallai y bydd ar rai pobl ifanc eisiau gwneud yr arolwg cyfan ar eu pen eu hunain tra byddwch chi'n disgwyl. Efallai y bydd ar rai angen i chi esbonio geiriau neu ymadroddion penodol. Efallai y bydd ar rai pobl ifanc angen i chi ddarllen ac esbonio pob cwestiwn iddyn nhw, ac ysgrifennu eu hatebion ar eu rhan. Mae'r rhain i gyd yn iawn.

**Wrth ysgrifennu ymatebion yn y blychau testun rhydd, mae'n bwysig bod sylwadau pobl ifanc yn cael eu cofnodi'n union fel y maen nhw'n eu dweud, heb ddehongli, egluro, dileu rhegfeydd nac aralleirio'r hyn y maen nhw wedi'i ddweud.**

- Bydd yr arolwg yn gofyn i bobl ifanc am eu henw a'u dyddiad geni er mwyn i ni allu adnabod pwy sydd wedi ateb yr arolwg.
- Heblaw'r cwestiynau data personol hyn, mae pob cwestiwn yn yr arolwg yn ddewisol. Os nad ydy person ifanc eisiau ateb cwestiwn, os bydd yn teimlo bod y cwestiwn yn peri gofid iddo neu'n teimlo nad yw'n berthnasol iddo, yna caiff fynd heibio iddo a symud ymlaen i'r un nesaf.
- Bydd gan bob person ifanc ddolen arolwg unigryw, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r ddolen gywir i'r person ifanc iawn.
- **COFIWCH GLICIO 'GORFFEN AROLWG' AR Y DUDALEN OLAF ER MWYN I'R AROLWG GAEL EI GOFNODI.**

Diolch am eich cefnogaeth. Mae eich ymdrechion i helpu pobl ifanc i ateb yr arolwg 'Eich Bywyd y tu hwnt i Ofal' yn hanfodol i ni ddeall effaith y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar Bobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru.

Gellir anfon unrhyw gwestiynau am yr arolwg neu am gyfnod yr arolwg at **ymchwilincwmsylfaenol@llyw.cymru**
Am ragor o wybodaeth ynghylch 'Eich Bywyd y tu hwnt i Ofal' neu'r Rhaglen Bright Spots, ewch i https://coramvoice.org.uk/for-professionals/bright-spots/